



Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS 2015-18

Gwasanaeth Erlyn y Goron
Uned Polisi Strategol ac Atebolrwydd

Cynnwys

- 1** Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr
- 2** Cyflwyniad – Y Ddeddfwriaeth
- 3** Ynglŷn â'r CPS a'n datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth
- 4** Sut yr ydym wedi cynnwys ac ymgynghori â phobl am ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- 5** Ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Atodiad

- A** Cynllun Gweithredu Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- B** Aelodaeth o'n Fforwm Atebolrwydd Cymunedol Is-grŵp Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- C** Esboniad o'r termau a rhestr o fyrfoddau

1 Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr

Mae cydraddoldeb yn gonglfaen allweddol sy'n tanseilio cyflawniad gwasanaeth erlyn teg, effeithiol a thryloyw.

Rydym yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ac ymdrin â'n gwaith mewn modd sy'n:

- Deg i ddioddefwyr a thystion ac yn unol â Chod y Dioddefwyr
- Deg i'r sawl a ddrwgdybir a diffynyddion
- Yn gymesur â'r hyn sy'n ofynnol i gael canlyniad cyfiawn
- Yn ymateb i bryderon y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn adlewyrchu ein gwerthoedd ac rydym yn falch gyda'n cynnydd o ran bodloni ein hamcanion ar gyfer y cyfnod 2012-15. Daw'r cynnydd hwn yn ystod cyfnod heriol i ni'n ariannol ac yn ystod cyfnod o newid sefydliadol mawr.

Mae'n allweddol mewn cyfnod o drawsnewid fel hyn ein bod yn dal gafael ar ein gwerthoedd. Amlinellir yr Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y cyfnod 2015 – 2018 yn yr adroddiad hwn.

Mae ein Fforwm Cydraddoldeb Cymunedol yn cynnwys ein partneriaid cymunedol a chynrychiolwyr rhwydwaith staff wedi helpu datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ogystal â'n gwneud yn atebol trwy fonitro a chraffu ar ein cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymadau.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n Fforwm Atebolrwydd Cymunedol, am eu cyngor ac arbenigedd sydd wedi bod yn allweddol o ran sicrhau bod ein hamcanion yn adlewyrchu blaenoriaethau cymunedau amrywiol yn well.

Alison Saunders
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Peter Lewis
Prif Weithredwr

2 Cyflwyniad – Y Ddeddfwriaeth

Mae'r adran hon yn sefydlu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 parthed dyletswyddau cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus.

2.1 Y Ddyletswydd Gyffredinol

Mae Adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd gyffredinol' ar yr holl gyrff cyhoeddus a gwmpasir gan y Ddeddf i dalu sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol phobl rhai nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu

Cyfeirir at dair elfen y ddyletswydd gyffredinol a osodir ar awdurdodau cyhoeddus ar y cyd fel y 'ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb'. Mae'r CPS yn gorff cyhoeddus o fewn ystyr y Ddeddf ac felly mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb ar draws yr holl grwpiau gyda 'nodweddion gwarchodedig'.

Y nodweddion a ddiogelir dan y Ddeddf yw:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gredo
- rhyw a
- chyfeiriadedd rhywiol.

2.2 Y Dyletswyddau Penodol

Mae'r Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) 2011 yn disgrifio'r dyletswyddau penodol sy'n berthnasol i'r holl awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1 i'r rheoliadau (gan gynnwys y CPS).

2.2.1 Cyhoeddi Gwybodaeth

- Cyhoeddi gwybodaeth i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol erbyn 31 Ionawr 2012 ac yn dilyn hynny yn ystod ysbeidiau o ddim mwy nag un flwyddyn yn dechrau gyda dyddiad y cyhoeddiad diwethaf.

- Rhaid i'r wybodaeth a gyhoeddwyd gynnwys, yn benodol, gwybodaeth yn ymwneud â phersonau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sydd:
 - o Yn weithwyr cyflog iddo
 - o Yn bobl eraill y mae ei bolisiau ac arferion yn effeithio arnynt
- Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth mewn modd sy'n hygyrch i'r cyhoedd.
- Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am gyflawni gwasanaeth a chyflogaeth yn ein hadroddiadau Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n dangos ein bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ar draws ein swyddogaethau erbyn y dyddiad gofynnol ac yn flynyddol o hynny ymlaen. Mae ar gael ar ein gwefan yn: <http://www.cps.gov.uk/publications/equality/index.html>.

2.2.3 Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Paratoi a chyhoeddi un neu fwy o'r amcanion erbyn 6 Ebrill 2012 ac yn dilyn hynny yn ystod ysbeidiau o ddim mwy na phedair blynedd yn dechrau gyda dyddiad y cyhoeddiad diwethaf.
- Gellir gweld ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth am y cyfnod 2012 – 2015 ac adroddiadau blynyddol dilynol ar ein gwefan yn: <http://www.cps.gov.uk/publications/equality/index.html>
- Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y cyfnod 2015 – 2018 i'w gweld ar dudalen 9 yr adroddiad hwn.
- Bydd craffu ar ein cynnydd ar yr Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn genedlaethol gan y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol.

3 Ynglŷn â'r CPS a'n Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

3.1 Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Y CPS yw'r prif wasanaeth erlyn cyhoeddus ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr. Wrth gyflawni'r rôl hon, mae'r CPS yn:

- cynghori'r heddlu yn ystod camau cynnar ymchwiliadau;
- pennu'r cyhuddiadau priodol mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth;
- penderfynu pa achosion y dylid eu herlyn ac yn cadw'r holl achosion dan adolygiad parhaus;
- paratoi achosion ar gyfer erlyniad ac yn erlyn achosion yn defnyddio eiriolwyr mewnol, eiriolwyr hunangyflogedig neu asiantau i gyflwyno achosion yn y llys;
- yn darparu gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

3.2 Sut olwg sydd ar y sefydliad

Mae strwythur y CPS fel a ganlyn:

- Pennaeth y CPS yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus;
- mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn cael ei oruchwylio gan y Twrnai Cyffredinol, sy'n atebol i San Steffan am y CPS;
- y Prif Weithredwr yw'r Pennaeth Gweinyddu;
- trefnir y CPS yn 13 Ardal ledled Cymru a Lloegr. Arweinir pob Ardal gan Brif Erlynydd y Goron gyda chefnogaeth Rheolwr Busnes Ardal.
- Yn ogystal mae yna dair adran gwaith achos arbenigol: Adran Twyll Arbenigol, Enillion Troseddau a Throseddau Arbenigol y CPS a Gwrthderfysgaeth.
- Mae gwasanaeth ffôn, CPS Direct, yn cynnig cyngor a phenderfyniadau tu allan i oriau arferol i swyddogion heddlu ar draws Cymru a Lloegr.
- mae'r CPS yn cyflogi tua 6089 o weithwyr;

Yn ystod y flwyddyn galendr 2014, erlynodd y CPS 681,000 o ddiffynyddion; terfynwyd 581,926 o ddiffynyddion mewn llysoedd ynadon a 99,074 yn Llys y Goron. Roedd gan y Llysoedd Ynadon gyfradd euogfarn o 84.6% ac roedd gan achosion Llys y Goron gyfradd euogfarn o 79.6%.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r CPS ar www.cps.gov.uk neu trwy ysgrifennu at: Correspondence Unit, Crown Prosecution Service, Rose Court, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS, neu trwy ffonio 020 3357 0899 (gellir recordio galwadau). Neu gallwch anfon e-bost: enquiries@cps.gsi.gov.uk.

3.3 Ein Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ein nod, fel y datganwyd yn ein Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yw bod yn wasanaeth erlyn sy'n cyflawni ei rôl yn deg a thryloyw. Rydym am ymdrin â rhwystrau ac anghymesuredd yn effeithiol a gweithio gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd i wella ein harferion fel ein bod yn medru cyflawni erlyniadau o safon uchel, gwell amgylchedd gwaith a chyflawni gwell cyfiawnder i bawb.

Mae'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron (Y Cod) yn rheoli sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau am erlyn achosion. Mae cydraddoldeb yn ganolog i egwyddorion cyffredinol Y Cod: "Mae erlyn teg ac effeithiol yn hanfodol wrth gynnal cyfraith a threfn. Dyletswydd erlynyddion yw gwneud yn siŵr bod yr unigolyn cywir yn cael ei erlyn am y drosedd gywir a dwyn troseddwr ger bron eu gwell lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Mae penderfyniadau gwaith achos a wneir yn deg, yn ddiduedd ac yn ddidwyll yn helpu i gyflawni cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd."

Er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion sydd yn y Cod a'r dyletswyddau a osodir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn sail i'n busnes o ddydd i ddydd, rydym yn ymwreiddio cydraddoldeb yn ein cynllunio, ein penderfyniadau a'n gweithredoedd yng nghyswllt ein harferion erlyn a chyflogi. Mae deddf cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni wneud hyn; ond, rydym hefyd yn derbyn ymrwymiad moesol, oherwydd mai dyma'r peth iawn i'w wneud ac oherwydd na allwn ymlafnio i fod yn gymdeithas gyfiawn heb geisio bod yn gymdeithas decach.

Trwy fod yn fwy tryloyw a chraffu cadarn ar y modd yr ydym yn trin pobl, sut yr ydym yn erlyn troseddau a sut yr ydym yn ymwneud â chymunedau, rydym yn sicrhau bod cydraddoldeb yn parhau yn ganolog i sut fyddwn yn cyflawni busnes a adlewyrchir yn [Y CPS : Safonau Ymdrin â Chwynion ac Ymgysylltu â'r Gymuned](#).

Safonau Ansawdd Ymdrin â Chwynion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

I'r CPS, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymwneud â mwy na dim ond cyrraedd ein gofynion statudol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn sylfaenol i ddarparu erlyniadau teg, cyflawni arferion cyflogaeth gydradd a chynyddu hyder yr holl gymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd edrych ar draws y nodweddion gwarchodedig amrywiol o safbwynt dioddefwyr, tystion a diffynyddion a all fod yn perthyn i nifer o wahanol gymunedau. Er enghraifft, bydd effaith troseddau casineb ar unigolyn du anabl, neu drais domestig ar ddyn hoyw yn aml haenog a chymhleth. Er mwyn annog pobl o gymunedau amrywiol i roi adroddiadau am droseddau, i roi eu tystiolaeth orau ac i aros gyda'r broses erlyn hyd yr eithaf, mae angen i'r CPS ymateb i natur gymhleth y modd y mae pobl wahanol yn profi troseddau a'r effeithiau gwahanol y gallant eu cael ar eu bywydau.

Rydym yn cydnabod yr angen am arweinyddiaeth a'r angen i gydnabod beth allwn ni ei wneud i gyflawni newid cadarnhaol. Er enghraifft, yng nghyswllt anabledd, bydd hyn yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar rwystrau cymdeithasol/sefydliadol sy'n creu anfantais, dadrymuso ac analluogi pobl oherwydd eu namau. Ein hamcan cydraddoldeb, felly, yw sicrhau bod pob dioddefwr a thyst yn cael mynediad cyfartal at gyfiawnder trwy gael gwared ar unrhyw rwystrau a all atal y mynediad hwnnw. Gall y rhwystrau hynny fod yn rhai ffisegol neu agweddol. Gallant fod yn ymwneud ag amgyffrediad, rhagfarn neu anwybodaeth neu gallant fod am y diwylliant sefydliadol.

3.4 Gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol

Rydym yn ymroddedig i ymgysylltu, cynnwys a gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned a'r sector gwirfoddol wrth ddatblygu ein polisiau ac i wella ein harferion yng nghyswllt erlyniadau a chyflogaeth. Trwy ein gweithgareddau ymgysylltu yn y gorffennol rydym yn gwybod bod ystyried barn ein partneriaid cymunedol yn ein helpu i sicrhau ein bod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cymunedau yn well yn ein polisiau ac arferion.

3.5 Rhagor o wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch weld ein gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y CPS trwy'r ddolen ganlynol:

<http://www.cps.gov.uk/publications/equality/index.html>

Mae'r ddolen isod yn darparu mwy o wybodaeth ar ein polisiau erlyn yn cynnwys troseddau casineb homoffobig a thrawsffobig, troseddau gwaethygedig ar sail hil neu grefydd, troseddau casineb anabledd a throseddau yn erbyn pobl hŷn yn ogystal â pholisiau parthed achosion trais yn erbyn menywod. Mae yna hefyd ystod eang o bolisiau newydd yn cynnwys y Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron a pholisiau parthed dioddefwyr a thystion y gellir eu gweld trwy'r ddolen ganlynol:

<http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/index.html>

4 Sut yr ydym wedi cynnwys ac ymgynghori â phobl am ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yr hyn a olygwn wrth ymgysylltu yw cynnwys rhanddeiliaid ar ddechrau'r broses o ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yr hyn a olygwn wrth ymgynghori yw holi pobl am eu barn ar ein cynigion i'w cynnwys yn ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

4.1 Sut yr ydym yn cynnwys cymunedau ac yn ymgynghori â nhw

- Datblygwyd yr Amcanion trwy is-grŵp o'n Fforwm Atebolrwydd Cymunedol (CAF). Mae aelodau'r Fforwm yn cynnwys ein partneriaid cymunedol a chynrychiolwyr o'n rhwydweithiau staff. Manylir ar aelodaeth y Grŵp yn Atodiad B.
- Fe gyhoeddodd yr amcanion ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ble darparodd y cyhoedd a grwpiau cymunedol adborth a sylwadau naill ai trwy e-bost neu'r post.
- Fe anfonodd ddolen y we ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol ar ein cronfa ddata a gwahodd eu sylwadau.
- Mae'r Fforwm a'n rhwydwaith o reolwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Ymgysylltu Cymunedol wedi cael eu holi am ein hamcanion arfaethedig.

4.2 Sut yr ydym yn cynnwys staff ac ymgynghori â nhw

Roedd staff y CPS yn gallu mewngofnodi i'r ddogfen ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad ac anfon eu sylwadau i mewn trwy e-bost.

4.3 Ymgynghoriadau eraill

Rydym hefyd yn anfon y ddogfen ymgynghoriad cyhoeddus am ein hamcanion ymlaen at ein partneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol a phartneriaid perthnasol eraill.

Gellir gweld dogfen ymateb ymgynghori ar y ddolen ganlynol.
<http://www.cps.gov.uk/publications/equality/index.html>

5.0 Ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Amcan 1: Llywodraethu

Cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn gyson parthed cydraddoldeb yn ein dull o ymdrin ag erlyniadau, staff a strwythur.

Un ffordd allweddol o sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a chydraddoldeb yw cynnal craffu allanol ac ymgysylltu priodol er mwyn asesu pa mor llwyddiannus a chyson ydym yn bodloni ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Amcan 2: Polisi

I sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau am bolisi erlyn a sut y gweithredir hyn mewn modd ymarferol, cynhwysol a chymesur i ystyried anghenion amrywiol cymunedau ac, yn benodol, dioddefwyr a thystion.

Dull hanfodol o sicrhau ein bod yn bodloni ein hymrwymadau cyfreithiol ac o ran cydraddoldeb yw sicrhau bod gennym ddigon o dystiolaeth i bennu effaith newidiadau arfaethedig a chofnod cadarn a digonol o'r broses lawn o wneud y penderfyniad.

Amcan 3: Cyflawni Gwasanaeth Troseddau Casineb

I gynyddu'r nifer o erlyniadau ac euogfarnau llwyddiannus ar gyfer achosion Troseddau Casineb¹ a throseddau yn erbyn pobl hŷn a sicrhau gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr a thystion.

Byddwn yn darparu cefnogaeth deg, briodol, sensitif ac effeithiol i ddioddefwyr a thystion Troseddau Casineb a Throseddau yn erbyn pobl hŷn trwy ddarparu erlyniadau effeithiol mewn achosion o'r fath. Yn y modd hwn rydym am geisio cynnal hyder dioddefwyr a thystion i roi adroddiad am droseddau o'r fath a chefnogi'r broses erlyn.

¹ Mae troseddau casineb yn cynnwys troseddau casineb homoffobig a thrawsfobig, troseddau casineb sy'n cael eu gwaethygu gan hil a chrefydd, troseddau casineb ar sail anabledd

Amcan 4: Cyflawni Gwasanaeth (VAWG)

Cynyddu'r cyfanswm o erlyniadau a cholffarnau llwyddiannus mewn achosion Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) a sicrhau gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr a thystion.

Byddwn yn darparu cefnogaeth deg, briodol, sensitif ac effeithiol i ddioddefwyr a thystion Trais yn Erbyn Menywod a Merched trwy ddarparu erlyniadau effeithiol mewn achosion o'r fath. Yn y modd hwn rydym am geisio cynnal hyder dioddefwyr a thystion i roi adroddiad am droseddau o'r fath a chefnogi'r broses erlyn.

Amcan 5: Cyflogaeth

Dynodi gwahaniaethau o ran ymgysylltu a phrofiad staff gyda nodweddion gwarchodedig ac ymdrin â nhw a gweithredu argymhellion cynllun gweithredu talent y gwasanaeth sifil cyfan.

Mae'n haelodau staff yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn ac rydym yn ymroddedig i sicrhau nad oes anghymesuredd anghyfiawn ym mhrofiadau'r staff a gyflogir gan y CPS.

Mae cynllun gweithredu'r Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn Atodiad (b) i'r adroddiad hwn.